

CANLLAWIAU

Apeliadau ynghylch derbyn dysgwyr i ysgolion: coronafeirws (COVID-19)

Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r broses apelau derbyn i ysgolion yn ystod y pandemig coronafeirws.

Cynnwys

[Trosolwg](#)

[Pa newidiadau rydyn ni'n eu cynnig?](#)

[Pryd bydd y rheoliadau newydd yn dod i rym a phryd byddan nhw'n dod i ben?](#)

[A fyddai'n well gohirio apeliadau ynghylch derbyn dysgwyr nes tymor yr hydref neu ganslo pob apêl?](#)

[Sut bydd yr hyblygrwydd newydd yn sicrhau bod y broses apelio yn parhau i fod yn deg?](#)

[Pwy fydd yn penderfynu p'un a gaiff apêl ei gwrandio wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy fideogynhadledd neu ar bapur?](#)

[A fydd y newidiadau hyn yn berthnasol i bob apêl ynghylch derbyn dysgwyr?](#)

[A fydd rhieni yn dal i allu gwneud cwyn os ydynt yn anhapus â'r ffordd y cafodd eu hapêl ei gweinyddu?](#)

Trosolwg

Bydd y coronafeirws (COVID-19) yn effeithio ar allu awdurdodau derbyn (hynny yw, awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu ysgolion, yn dibynnu ar categori'r ysgol) i gynnal apeliadau ynghylch derbyn dysgwyr. Y rheswm am hyn yw y byddai trefnu panel apelio yn torri rheolau'r cyfyngiad presennol ar gynulliadau o fwy na dau berson. Gallai fod yn anodd hefyd sicrhau digon o aelodau annibynnol ar y panel, a gallai'r newidiadau yn nhrefniadau agor a chau ysgolion effeithio ar y gallu i gadw at derfynau amser yr apeliadau.

Dylai rhieni ddal i allu apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod derbyn i wrthod lle i'w plentyn mewn ysgol. Byddwn, felly, yn gwneud newidiadau i'r rheoliadau a ddaw i rym cyn gynted â phosibl. Bydd y rheoliadau newydd yn llacio rhai o'r gofynion cyfredol yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 a Chod Apelau Derbyn Ysgol 2013 ac yn galluogi awdurdodau derbyn i fwrw ymlaen â'u hapeliadau ynghylch derbyn dysgwyr.

Ein nod yw rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i awdurdodau derbyn i reoli apeliadau yn y ffordd orau o dan eu hamgylchiadau lleol nhw, gan sicrhau ar yr un pryd bod rhieni sy'n apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch lle ysgol eu plentyn eleni yn cael eu cefnogi ac na fyddant o dan anfantais yn sgil y mesurau sydd ar waith i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Pa newidiadau rydyn ni'n eu cynnig?

Bydd y rheoliadau newydd, a fydd mewn grym tan 31 Ionawr 2021:

- Yn ei gwneud yn glir y tu hwnt i bob amheuaeth nad oes rhaid cynnal apeliadau wyneb yn wyneb. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn nodi bod yn rhaid i apêl "roi cyfle i'r apelydd ymddangos a gwneud sylwadau llafar", sy'n rhoi hyblygrwydd yn ein barn ni. Fodd bynnag, rydym am ddiwygio'r rheoliadau cyfredol i nodi'n glir yr hyblygrwydd i gyfarfod yn rhithiol neu dros y ffôn.
- Yn datgymhwyso'r gofynion arferol mewn perthynas â lleoliad apêl ynghylch derbyn dysgwyr lle mae'r broses yn digwydd o bell neu ar bapur yn hytrach nag wyneb yn wyneb.
- Yn llacio'r rheolau o ran yr hyn a fydd yn digwydd os bydd un o dri aelod y panel (lle bydd panel wedi'i gwtogi o bump aelod) yn tynnu'n ôl (dros dro neu'n barhaol) i ganiatáu i'r panel barhau â'r apêl a chwblhau'r broses fel panel o ddau.

- Yn diwygio'r terfynau amser i awdurdodau derbyn gynnal apeliadau, tra bydd y rheoliadau newydd mewn grym, i ganiatáu digon o amser i ddelio â phenllanw llif blynyddol yr apeliadau ynghylch plant sydd i ddechrau mewn ysgolion newydd ddechrau mis Medi 2020. Bydd gofyn i awdurdodau derbyn ailedrych ar eu hamserlen bresennol a chyflwyno amserlen newydd a therfynau amser diwygiedig. Caiff manylion y terfynau amser eu hamlinellu yn y rheoliadau a'r canllawiau cysylltiedig.

Fodd bynnag, ni fyddwn yn cael gwared ar unrhyw rai o'r dyletswyddau clericio sy'n ymwneud ag apeliadau ynghylch derbyn dysgwyr. Mae clerciaid yn cyflawni rôl allweddol mewn perthynas â gwrandawladau apeliadau, gan gynnig cyngor ar y gyfraith ynghylch derbyn dysgwyr yn ogystal â chadw cofnod cywir o'r trafodion a sicrhau bod y gwrandawriad yn un teg.

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau i helpu awdurdodau derbyn ac awdurdodau lleol i gynnal apeliadau ynghylch derbyn dysgwyr yn ystod y misoedd i ddod, a fydd yn rhoi mwy o fanylion ynghylch y rheoliadau hyn.

Pryd bydd y rheoliadau newydd yn dod i rym a phryd byddan nhw'n dod i ben?

Rydym yn disgwyl i'r rheoliadau hyn ddod i rym mor fuan â phosib. Dros dro y maen nhw a dônt i ben ar 31 Ionawr 2021. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i awdurdodau derbyn ddelio â phenllanw llif blynyddol yr apeliadau ynghylch plant sydd i ddechrau mewn ysgolion newydd ddechrau mis Medi 2020. Caiff y rheoliadau eu hadolygu'n rheolaidd, a gallwn gyflwyno deddfwriaeth i dynnu'r dyddiad hwn ymlaen os bydd effaith y coronafeirws yn llai difrifol nag a ragwelir. Bydd y ddarpariaeth drosiannol yn golygu y bydd y rheoliadau newydd yn parhau i fod yn berthnasol i apeliadau a fydd eisoes ar y gweill, ond na fyddant wedi'u cwblhau, ar neu cyn 31 Ionawr 2021.

A fyddai'n well gohirio apeliadau ynghylch derbyn dysgwyr nes tymor yr hydref neu ganslo pob apêl?

Dylai rhieni ddal i allu cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad ynghylch lle ysgol eu plentyn os ydynt o'r farn bod y lle a gynigir yn anaddas i'w plentyn, ac mae'n beth

cywir ein bod yn sicrhau eglurder ynghylch y sefyllfa nawr yn hytrach na gofyn i rieni a'r sector aros tan yr hydref. Byddai oedi yn amharu'n fawr hefyd ar y plant y bydd angen iddynt o bosibl (os bydd eu hapêl yn llwyddiannus) symud i ysgol arall ar ôl dechrau tymor yr hydref, gan arwain at ansefydlogrwydd pellach i blant sydd efallai eisoes wedi colli rhywfaint o'u haddysg. Mae gwneud y diwygiadau hyn nawr yn sicrhau na fydd teuluoedd sy'n apelio yn erbyn penderfyniad eleni o dan anfantais yn sgil y mesurau sydd ar waith i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Sut bydd yr hyblygrwydd newydd yn sicrhau bod y broses apelio yn parhau i fod yn deg?

Bydd y rheoliadau newydd yn llacio'r gofynion cyfredol, ond nid y rhwymedigaethau o ran cyfiawnder naturiol a thegwch gweithdrefnol. Ni fyddwn yn llacio unrhyw ofynion o ran clericio, a bydd ein canllawiau atodol yn ategu pwysigrwydd hyfforddiant, clericio, dilyn y weithdrefn gywir a sicrhau tegwch.

Pwy fydd yn penderfynu p'un a gaiff apêl ei gwrando wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy fideogynhadledd neu ar bapur?

Os na ellir gwrando apeliadau yn ddiogel wyneb yn wyneb oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol, dylai'r clerc gysylltu â phob parti ac esbonio'r trefniadau dros dro ar gyfer apeliadau, a sefydlu p'un a oes mynediad gan bawb at y cyfarpar angenrheidiol ar gyfer gwrandawriad ffôn neu fideogynhadledd. Dylai'r clerc sefydlu nid dim ond p'un a yw'r apelydd yn abl i gymryd rhan mewn gwrandawriad dros y ffôn neu drwy fideogynhadledd, ond hefyd p'un a yw'n cydsynio i hynny. Lle nad yw gwrandawriad ffôn neu fideogynhadledd yn rhesymol ymarferol, dylai'r panel benderfynu ar yr achos ar sail cyflwyniadau ysgrifenedig y partion. Mewn achos felly, rhaid i banel yr apêl gymryd camau i sicrhau bod y partion yn gallu cyflwyno'u hachosion yn llawn yn ysgrifenedig, a rhaid iddo fod yn fodlon bod modd penderfynu ar yr apêl mewn ffordd deg a thryloyw.

A fydd y newidiadau hyn yn berthnasol i bob apêl ynghylch derbyn dysgwyr?

Nod y rheoliadau newydd yw helpu awdurdodau derbyn gydag apeliadau ynghylch derbyn dysgwyr i ysgolion cynradd ac uwchradd dros yr haf ac i mewn i'r hydref. Dyma'r adeg pan fydd y rhan fwyaf o apeliadau yn cael eu cynnal. Byddant yn berthnasol i apeliadau a gyflwynir ar neu ar ôl y diwrnod y daw'r rheoliadau i rym, ond cyn 31 Ionawr 2021. Byddant hefyd yn berthnasol i apeliadau a gyflwynir cyn i'r rheoliadau ddod i rym ond lle na fydd y broses wedi'i chwblhau.

A fydd rhieni yn dal i allu gwneud cwyn os ydynt yn anhapus â'r ffordd y cafodd eu hapêl ei gweinyddu?

Byddant. Mae'n bwysig bod rhieni yn cael gwneud cwyn os oes ganddynt dystiolaeth o gamweinyddu. Ni fyddwn yn llacio unrhyw un o ofynion y Cod Apelau Derbyn Ysgol sy'n ymwneud â chwynion am apeliadau.

Cyhoeddwyd gyntaf

16 Ebrill 2020

Diweddarwyd ddiwethaf

16 Ebrill 2020

Rhan o

[Addysg a gofal plant: coronafeirws](https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws) (https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws)

[Derbyniadau ysgolion](https://llyw.cymru/derbyniadau-ysgolion) (https://llyw.cymru/derbyniadau-ysgolion)